# y DINESYDD

MEDI 1995 | "LLAIS Y GYMUNED" | RHIF 211

*PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH*

# Stadiwm newydd - o'r gorau, ond beth am y tîm?

**TOM DAVIES YN YSGRIFENNU**

CHWARAEON

Aydych chi wedi ffonio'r rhif hwn eto: 0891-33-1999? A fyddech chi'n ffonio, tybed? Dyma'r rhif y gellwch gadarhnau eich cefnogaeth i'r Stadiwm newydd ar gyfer Cwpan y Byd 1999 (nid Cwpan y Byd nesaf, cofier, eithr Cwpan nesaf y Byd - mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng y ddau!). Yr wyf fi'n dal i wingo oherwydd yr hyn a ddigwyddodd ar Fehefin 4ydd eleni ym Mharc Elis, Johannesburg, ac yn wir mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oes gennyf fi fawr o ddiddordeb mewn codi stadiwm newydd wedi'r siom anferth honno.

### *Rwy'n poeni*

Yr hyn sy'n fy mhoeni i'n awr ydyw sut y gellir codi tîm cenedlaethol newydd ar gyfer y gystadleuaeth honno. Diolch na fydd yn rhaid chwarae yn rowndiau cymhwysol y Cwpan, ond nid ydym yn ddigon da i gyfranogi ynddyn nhw, ysywaeth, ac nid ydyw'r ffaith fod yn rhaid i Loegr chwarae yn y rowndiau agoriadol yn gysur o gwbwl ar hyn o bryd. Cost y stadiwm fydd can miliwn o bunnau a chredaf y bydd hi'n haws o lawer codi'r swm anferth hwnnw na chodi tîm teilwng o'r stadiwm - ac o'r genedl: y mae'r bwlch rhyngom a gwledydd yr hemiseffer arall yn lledu o dymor i dymor, ac nid wyf yn hyderus y gallwn ni guro Ffrainc eto ychwaith, mewn stadiwm newydd neu yng Nghaeau Llandaf.

Cwblhawyd y stadiwm presennol yn 1984, gyda llaw, ar ôl gwario rhyw naw miliwn o bunnau a godwyd o'r tu mewn i'r gêm yn y wlad hon heb unrhyw gymorth oddi wrth y cyhoedd, er i'r Cyngor Chwaraeon gyfrannu swm bach. "Nawr y gwelwn y dyfodol gyda pheth hyder," meddai Trysorydd yr Undeb, Ken Harris, yn ei erthygl a ymddangosodd pan chwaraeodd Cymru yn erbyn Tîm y Llywydd i ddathlu cwblhau'r stadiwm, Ebrill 7fed, 1984.

### *Y Dyfodol*

Pwy, ysgwn i, a wêl y dyfodol ar ôl codi'r stadiwm nesaf â'r fath

*parhad ar dud. 2*




Llun: Robin Griffith

*Golygfa o'r tu allan i'r stadiwm: A fydd hon yn debyg o newid cyn hir?*

## TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr addysg newydd | 3 |
| Newyddion | 4-6 |
| Dysgu Cymraeg | 7 |
| Ysgolion | 8-11 |
| Cydeithasau | 12 |
| Nodweddion | 14-15 |
| Croesair | 16 |

# y DINESYDD

Medi, 1995. Rhif 211.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyluniwyd gan Newsline, Caerdydd, ac fe'i argraffwyd gan Harleys Printing, Caerdydd.


## Y TÎM GOLYGYDDOL

Anfonwch unrhyw ddeunydd at y tîm golygyddol fel a ganlyn:


**Mrs Tegwen Evans,** 6 Ridgeway, Llysfaen, Caerdydd CF4 5RR (754559): newyddion cyffredinol.

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562): newyddion byd addysg

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): newyddion yr Eglwys Newydd

**Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282): cyffredinol

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): wedi myn i'r Wladfa. Daw'n ôl toc.

**Mr Tom Davies**, 41 Highfields, Caerdydd (564540): chwaraeon

**Y Parchedig Gwilym Davies**, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811): newyddion yr eglwysi


## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw pobl Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, byddwch gystal â chysylltu â **Mr Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383 Ffacs 487220.**

## DIWEDD Y GAN...

Mae'r Dinesydd yn dibynnu ar grantiau ac arian gan gymdeithasau ac unigolion. Os teimlwch ichi haffi darllen y rhifynnau newydd diweddaraf, beth am ddangos eich gwerthfawrogiad trwy anfon cyfraniad at ein trysorydd:
**Mr Aled Williams,** Rhos-y-grug, Pentwyn, Radur, Caerdydd CF4 8RE.
Cynobyddir pob rhodd ar dudalennau'r Dinesydd.


# DEFNYDDIWCH "LLAIS y GYMUNED"

Gall *y Dinesydd* gynnig cyfle marchnata unigryw i gyrraedd yn gyson dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas a'r cylch.

Dengys ein harolygon bod mwyafrif ein darllenwyr yn y grwpiau ABC1, ac yn eu plith mae rhai o bobol mwyaf dylanwadol y genedl. Mae cylchrediad *y Dinesydd* yn uwch o lawer nag unrhyw gyhoeddiad Cymraeg lleol neu genedlaethol arall.

Achubwch ar y cyfle marchnata unigryw yma trwy hysbysebu yn *y Dinesydd*. Mae ein cyfraddau yn rhesymol iawn, ac mae gostyngiadau ar gael ar gyfer cyfresi.

**Cysylltwch â: Tim Pearce neu Justin Webb, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX Ffôn: 01222 452383 Ffacs: 01222 487220**

**y DINESYDD**


# Stadiwm newydd - ie, ond beth am y tîm?

☛ *parhad o dud. 1*

hyder? Y mae angen mwy o weledigaeth i feithrin tîm nag i godi stadiwm 75,000 o wylwyr.

Ond dyna ni - yma y chwaraeir Rownd Derfynol Cwpan y Byd yn hydref 1999, a bydd raid codi stadiwm ar ei chyfer. Gornest gyntaf y gystadleuaeth fydd honno rhwng Cymru a De Affrica - dyna fu'r drefn yn 1991 ac eleni, beth bynnag, y gwestiwyr yn erbyn y deiliaid, ond gwell peidio â sôn bellach amdani.

### *Sut stadiwm?*

Un fydd yn dal o leiaf bymtheg a thrigain o filoedd, fel y caiff pob gwerinwr gyfle i weld y wlad yn chwarae ynddo ar y Maes Cenedlaethol newydd (ac ar faes glasach gobeithio) - pob gwerinwr, cofier, sef pobl Cymru. Byddaf fi'n erfyn ar i'r Undeb beidio â chynnwys y celloedd croeso hynny a welid yn y Stadiymau ledled y byd lle'r yf y crachach eu chwisgi gan sgwrsio am "yr achlysur" a gwerth eu cyfranddaliadau ar y farchnad: bydd rhai ohonynt yn gwylio'r chwarae ar y teledydd yn y celloedd yn llewys eu crysau'n ddiau, fel y byddai'n rhaid i'r gwir ddilynwyr ei wneud gartref am na allent fforddio tocyn.

Ffieiddiaf fi'r celloedd hynny (er eu bod yn gweddu, hwyrach, i Dwicenham a Chae Murray), ac yr oedd hi'n syn gennyf eu gweld ym Mharc Elis a phob stadiwm arall yn Ne Affrica. (Cefais siom fawr hefyd wrth weld a chlywed y dorf yn Johannesburg adeg Rownd Olaf y Cwpan ddiwedd Mehefin, ond y mae hyn y tu allan i ffiniau'r llith hon).

Pwysig hefyd fydd peidio â gadael gormod o le rhwng y gwylwyr a'r cae: ni fyddai'n dderbyniol felly osod rhedegfa athletau o amgylch y cae. Y rheswm am hyn ydyw ei bod yn well gan y chwaraewyr deimlo'r dorf nesed atynt â phosibl, ac y dylid hefyd ystyried y gwylwyr yn rhesi uchaf yr eisteddleoedd. Y mae hi'n hynod o annymunol ym Mharc y Tywysogion ym Mharis oherwydd y pellter rhwng y gwylwyr a'r cae.

### *Ple?*

Yn yr union le y mae hi ar hyn o bryd? Ie, ond anodd fyddai ychwanegu at y maint heb godi'r un newydd ar ongl sgwâr i hwn. Golygai hynny na allai clwb Caerdydd gadw ei gae. Bu sôn y cynigid stadiwm newydd i'r clwb yn ardal Bae Caerdydd. Clywyd peth gwrthwynebiad gan aelodau'r clwb, ond ni wnaed penderfyniad pan oeddwn i'n ysgrifennu'r llith hwn. Pe ceid ei godi ar ongl sgwâr, byddai cryn dipyn o le ar gyfer parcio ceir ochr Afon Taf, debyg, ond ni ddylid gadael i neb loddesta o gist ei gar - ffieiddbeth arall hollol anwerinol ac annerbyniol yng nghysgod ein Maes Cenedlaethol ni. Wrth ailfeddwl, dylid gwahardd parcio cerbydau preifat o amgylch y stadiwm yn gyfangwbl, gan godi cymaint o lefydd ymarfer â phosibl yno.

Cofiwch am ffonio'r rhif a roddwyd uchod. Ein Maes Cenedlaethol fydd; y mae'r gamp yn wirioneddol bwysig inni oll i gyd. Ffoniaf ar unwaith. **D**

# Cyfarwyddwr addysg newydd Bro Morgannwg

## Mae B. D. Harries yn croesawu Alun Davies i'w swydd newydd.

Nid pleser digymysg yw llongyfarch Mr Alun Davies, yr ail yn hierarchaeth addysg yn Ne Morgannwg, ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Addysg uned lywodraethol newydd Bro Morgannwg, gan y byddwn yn y ddinas yn colli un o'r ychydig yn y Swyddfa Addysg oedd yn gwir ddeall a chefnogi addysg Gymraeg. Ond mae'r penodiad, gallwn i feddwl, yn plesio Cymry Cymraeg y Fro, ac yn plesio pob rhiant yno sy'n cymryd diddordeb deallus yn addysg eu plant.

Brodor o Bont-y-pŵl yw Alun a chafodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Gorllewin Mynwy cyn mynd i Brifysgol Caerlŷr. Daeth i ysgol St. Cyres yn athro Almaeneg a Ffrangeg ac wedi hynny'n bennaeth Adran Almaeneg Ysgol y Bechgyn, Y Barri. Ymgymerodd â'i swydd gyntaf yn y swyddfa addysg yn 1980 fel Cynorthwywr Proffesiynol a dringodd i'w swydd bresennol yn gyson oddi ar hynny. Yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn y swyddfa aeth ati i ddysgu Cymraeg yn ei amser rhydd, yn aml bron cyn toriad gwawr, dan gyfarwyddyd Chris Rees yn Park Place ac erbyn hyn, er bod ei wyleidd-dra naturiol yn ei atal rhag honni hynny, mae'n rhugl yn yr iaith ac yn dal i ymdrechu i gryfhau ei afael arni. Caiff gryn help yn hyn o beth gan ei wraig a'i blant a hyfryd yw canfod mai Cymraeg yw iaith yr aelwyd bellach.



Llun: Robin Griffith

### *Y dyfodol*

Mae'n edrych ymlaen yn eiddgar at yr her sy'n ei aros ac mae'n awyddus i greu o'r cychwyn bartneriaeth effeithiol â'r gwahanol asiantaethau a chymdeithasau sy'n ymwneud ag addysg er sicrhau na fydd cwtogi ar y gwasanaethau presennol ac er sicrhau bod yr hyn a gynigir yn y Fro o ran addysg in toto o'r safon uchaf.

Mae'n fater o reidrwydd ei fod yn gweithredu cynllun presennol De Morgannwg ar gyfer sefydlu dwy ysgol uwchradd Gymraeg a fydd yn gwasanaethu plant y Fro am y tymor byr ond mae am sefydlu ar fyrder weithgor proffesiynol i ystyried sut i ddatblygu addysg Gymraeg yn y tymor hir ac i baratoi cynlluniau ar gyfer y Fro a fydd yn rhoi sylw dyladwy i addysg gynradd ac uwchradd ac i addysg arbennig. Ymddengys iddo eisoes fod mewn cysylltiad a RHAG yn y Fro ac mae wedi gofyn am gyfarfod â nhw'r mis hwn.

Ac yntau'n ŵr cymharol ifanc yn eu ddeugeiniau cynnar mae'n amlwg fod ganddo'r egni a'r brwdfrydedd sy'n gwbl angenrheidiol yn y 'barchus, arswydus swydd' hon. O'i adnabod gellir dweud yn ddiweniaith mai ei brif symbyliad fel gweinyddwr yw ceisio sicrhau'r addysg orau i bob plentyn, beth bynnag fo'i gefndir, ei iaith a'i allu.

Dymunwn yn dda iddo gan obeitho y gwnaiff pob un a gaiff y cyfle gydweithio ag ef i sefydlu'r bartneriaeth hapus a chynhyrchiol y mae mor awyddus i'w chreu. **D**

# Cofeb i'r Esgob Morgan?



MAE SÔN am godi cofeb yn Eglwys Gadeiriol Llandaf i goffau'r Esgob William Morgan a drosodd y beibl i'r Gymraeg yn 1588. Roedd yn esgob Llandaf rhwng 1595 - 1601, ond roedd golwg ddigon truenus a di-raen ar yr holl le'r adeg honno.

Mae cerflun iddo yn Neuadd y Ddinas wrth gwrs, ac mae darlun ohono wrth wal y brif fynedfa i'r Gadeirlan.

# Cenhades fodern

YN DDIWEDDAR ar S4C dangoswyd rhaglen ar waith Aelwen Michael, 27 oed sy'n genhades yn Ne Affrica gyda'r elusen S.O.S. Cyn ymuno ag S.O.S. bu'n gweithio gyda'r Y.M.C.A. yn Johannesburg am bedair blynedd. Mae Aelwen yn ferch i Alun Michael, yr Aelod Seneddol ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf. Bu'r teulu yn byw yn Rhiwbeina am flynyddoedd cyn symud i fyw ym Mhenarth. Bu Mrs Michael yn gadeirydd Cylch Meithrin Cymraeg Rhiwbeina ar un adeg. Pob dymuniadau da i Aelwen yn y dyfodol.

# Canu'n iach

YN YSTOD yr haf eleni fe aeth Hywel Gwynfryn, Anja a'r plantos o'r brifddinas i fyw yn eu cartref newydd yn Abergele. Pob dymuniad da iddyn nhw i gyd.

# Ar daith dros y môr

YN YSTOD yr haf fe fu chwech o bobl ifanc Ysgol Sul Eglwys Crwys yn ymweld ag ardal Feeding Hills yn Massachusetts am dair wythnos i aros hefo ieuenctid yno fel rhan o gynllun cyfnewid. Athrawes ifanc yn ysgol Coed-y-gof, Mari Lloyd Jones a arweiniodd y grwp oedd yn cynnwys Siân Elin Couch, Siân Dingley, Iwan Evans, Dafydd Jones, Rebecca Jones a Helen Roderick. Mae'r cynllun yma wedi bod ar waith ers tro bellach ac mae nifer o bobol ifanc yr eglwys wedi cael cyfle i roi croeso i ieuenctid Feeding Hills ers blynyddoedd.

# O'r Wladfa i Gymru

AR DDECHRAU Mis Gorffennaf bu chwech o bobl ifanc y Wladfa yn aros yng Nghaerdydd, ar aelwydydd Shan Emlyn a Gwilym Roberts. Roedden nhw ar eu ffordd i'r cwrs Cymraeg yng Ngholeg Llanbedr.

Roedd pump o'r bobl ifanc yma'n dod o'r Gaiman ac un o Rawson, tref weinyddol Talaith Chubut. Roedden nhw wedi bod yn mynychu cyrsiau Cymraeg yn y Wladfa cyn mentro drosodd. Fe fyddan nhw'n mynd yn ôl i barhau'r gwaith da yn eu gwlad nhw'u hunain.

Fe fuon nhw'n ymweld â'r Amgueddfa Werin a chael croeso gan Gerallt Nash a fu'n byw gyda'i deulu yn Y Wladfa dros gyfnod. Yna buont yn Neuadd y ddinas a chael arwyddo Llyfr yr Ymwelwyr. Fe aethon nhw hefyd i dref Cydweli a chael croeso gan Tom Gravell sydd yn hen gyfarwydd i bobl Y Wladfa. Yna fe aethon nhw i Aberhonddu i aros gyda Gruff ac Eifiona Roberts sydd newydd ddychwelyd i Gymru ar ôl bod yn dysgu'r Gymraeg yn y Wladfa am flwyddyn.

# Gwilym yn codi'i bac

YNG NGHANOL heulwen Gorffennaf, cododd Mr Gwilym Roberts, Rhiwbeina, ei bac a dal awyren yn Heathrow i fynd i'r Wladfa. Mae wedi bod yno ddwywaith o'r blaen ac yn cael cryn hwyl ar ddysgu'r iaith i bobl y Wladfa, ond bydd y Dinesydd yn gweld y golled ar ei ôl gan ei fod yn dda am hel newyddion.

# Diolch

DYMUNA teulu'r diweddar Lloyd Evans, Llandaf, ddiolch yn ddiffuant i'r holl gymdogion a ffrindiau a ddangosdd eu cydymdeimlad mewn gair a gweithred ar adeg drist eu profedigaeth fawr o'i golli mor annisgwyl.

# Cawr ym myd cerdd

GŴR IFANC sydd wedi dod i'r amlwg ym myd cerddoriaeth ydy'r cyfansoddwr John Rea, brodor o Forgannwg Ganol ond sydd â'i wreiddiau ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'n gyn-ddisgybl o ysgol Gyfun Llanhari ac mae ei rieni'n byw yn y Groes-faen. Yn Chwefror enillodd wobr BAFTA Cymru am ei gerddoriaeth ddawns ar gyfer y ffilm "Cyrff Ystwyth". Hefyd, cyfansoddodd agorawd i gerddorfa ar gyfer cyngerdd mawreddog Gŵyl Dewi yn Neuadd Dewi Sant eleni. Perfformiwyd cân ganddo yn y gyfres "Canrif o Gân" ar S4C ac fe'i canwyd gan Jeffrey Lloyd Roberts.

# Merched yn bennaf

O'R PUM cystadleuydd a ddaeth drwodd i rownd derfynol Cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd eleni roedd pedair o ferched. Roedd y dewis yn fwy diddorol byth o gofio mai pum dyn a dwy ferch oedd ar y panel beirniaid. Erbyn y noson olaf roedd disgwyl yn fawr am y noson o ganu uwch na'r cyffredin. Roedd llawer iawn o berfformiadau da yn ystod yr wythnos ond prin oedd y datganiadau aruchel.

Petai'r gynulleidfa wedi cael ei ffordd byddai'r tenor cyffrous o Chile wedi llamu i'r rownd derfynol gan iddo'i morio hi'n wefreiddiol mewn cyfres o ariau cyfarwydd. Ond chwilio am gyfanwaith artistig a wnâi'r rheithgor o arbenigwyr ac fe'i cafwyd ar y noson olaf. Cawsom ernes o hyn pan glywsom y gantores o'r Ffindir, Kirsi Tiihonen, y soprano o Rwsia, Larisa Rudakova a'r mezzo soprano o Sweden, Katarina Karneus.

Os oedd cystadleuaeth fythgofiadwy 1989 yn ornest rhwng y ddau gawr, Dmitri a Bryn, roedd hi eleni rhwng tair tywysoges.

Cael a chael oedd hi yn y diwedd, ddwedwn i, a dyfarnwyd y wobr lieder i Kirsi Tiihonen a'r brif wobr i'r gantores gyfan a chaboledig o Sweden. Fe fyddwn yn sicr o glywed Katerina Karneus ar lwyfannau'r byd yn y dyfodol agos. Synnwn i ddim nad oes gyrfa Wagneraidd yn aros Kirsi o'r Ffindir ac er na chafodd Larisa, y lleisreg eithriadol o'r Bolshoi, ei chydnabod â gwobr, mae ganddi ddyfodol disglair.


CYSTADLEUAETH 1995

Mae llwyddiant diamheuol y gystadleuaeth unigryw hon yn rhywbeth yn gallwn ni fel Cymry ymfalchio ynddo. Cafodd ei geni a'i magu gan BBC Cymru, diolch i Mervyn Williams, Geraint Stanley Jones a Gareth Price. Er yr holl lwyddiant mae lle i ofni mai gwan yw'r ddelwedd Gymreig ar y sgrîn deledu. Rhaid diolch i Gadeirydd y Rheithgor, wrth ddyfarnu, am roi i ni'r unig Gymraeg a glywir oddi ar y llwyfan ac yn y cyflwyno.Rhaid canmol hefyd grefft y cerflunydd o Gaerfyrddin, Christian Brown, am roi simboliaeth Geltaidd yn y tlws copr a luniodd ar gyfer y wobr. Un sy'n haeddu canmoliaeth arbennig yw Carl Rizzi, cyfarwyddwr cerdd ein Cwmni Opera am ei waith meistrolgar wrth gynorthwyo'r pump terfynol yn eu perfformiadau.

Am wythnos fe fu Cymru'n wir wlad y gân.

# Arian i Tŷ Hafan

Yn ddiweddar derbyniodd Mrs Suzanne Goodall siec o £3,100 ar ran elusen Tŷ Hafan ar ôl i ddisgyblion Glantaf fod wrthi'n cynnal gwahanol weithgareddau i godi arian ar gyfer yr elusen arbennig hon.




Llun: Robin Griffiths

*Y Dabled ar Tŷ'r Cymry*

# Gostyngu treth y Tŷ

TŶ'R CYMRY yw un o dai mwyaf diddorol Dinas Caerdydd.

Cafodd ei roi i'r ddinas yn ystod y tridegau, i'w ddefnyddio gan y Cymry fel man cyfarfod ac ati.

Ar hyn o bryd mae gan Gymdeithas yr Iaith swyddfa yno. Yn ychwanegol at hyn mae'n cynnal dosbarthiadau dysgu Cymraeg. Roedd gan y Gymdeithas Addysg Grefyddol le yno hyd yn ddiweddar, ond oherwydd prinder grantiau bu raid iddi roi ei lle i fyny ac roedd un ystafell wag yno pan oedd *Y Dinesydd* yn mynd i'r wasg.

Mewn man arall fe geir Ysgol Feithrin hwyliog. Dyma i ble y daeth hen Ysgol Feithrin Heol y Crwys.

Cyn i'r Ysgol Feithrin gychwyn yno roedd rhaid gwario llawer ar y lle a chafwyd grant gan Gyngor y Ddinas tuag at yr adnewyddu.

Mae llu o gymdeithasau'n cyfarfod yn rheolaidd a'r lle fel cwch gwenyn o brysur drwy'r flwyddyn.

Ond yn ddiweddar roedd ofn y gallai hyn i gyd newid - a'r Dreth Gyngor oedd y drwg yn y tŷ.

Fel Adeilad Busnes roedd disgwyl ar un adeg i'r lle dalu o £3,000 i £4,000 o Dreth Gyngor yn lle rhyw £1,000. Gallai hyn olygu codi llawer iawn mwy ar bobl am ddefnyddio'r lle, mwy nag y gallen nhw fforddio'i dalu. Yn waeth byth gallai olygu y byddai'n rhaid gwerthu'r adeilad.

Wedi ymdrech daer, cafwyd y dreth i lawr i ffigur rhesymol a chadw drysau'r lle hwn rhag cau ar ôl gwasanaethu Cymry'r ddinas am gynifer o flynyddoedd.

# Colli mam

CYDYMDEIMLADAU dwys i Mrs Doreen Thomas, Llandaf yn ei phrofedigaeth o golli ei mam a fu farw o fewn dyddiau i gyrraedd ei 90 oed.

# Dymuniadau da

DYMUNIADAU da i Elfan Jones ar ei ymddeoliad diweddar o fod yn brifathro Ysgol Bro Eirwg. Hyderir y bydd yn gwella o'i anhwylder yn fuan ac y caiff iechyd i fwynhau blynyddoedd o seibiant.


# EISTEDDFOD BRO COLWYN

# Dyrchafiad i'r Orsedd


LLONGYFARCHION i'r bobl hyn sydd a chysylltiad agos â'r brifddinas a ddyrchafwyd i'r Orsedd yn Eisteddfod Bro Colwyn.



**Elwyn Tudno Jones**, Caerdydd, cyn ddisgybl o Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Ar hyn o bryd mae'n ddirprwy gadeirydd Cwmni Symonds ac mae'n Ymddiriedolwr i'r Apêl Sefydlu Canolfan Ymchwil y Galon yng Nghaerdydd. Mae ar Bwyllgor Safle'r Eisteddfod er 1980.




**Lyn T. Jones**, Caerdydd, o Gwm Gwendraeth yn wreiddiol. Roedd yn Olygydd Radio Cymru hyd yn ddiweddar. Erbyn hyn symudodd i'r Adran Ddrama a gellir disgwyl datblygiadau o bwys o dan ei arweiniad.



**Dennis O'Neill**, Caerdydd a anwyd ym Mhontarddulais. Mae'n ymddangos yn rheolaidd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n Llywodraethwr ac yn Gymrawd o Goleg Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd.



**Emyr Lewis**, gynt o Gaerdydd a gafodd ei urddo oherwydd iddo ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Bryntaf ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae'n fab i Mr a Mrs Cynric Lewis, Llysfaen.



**Rhodri Wyn Miles**, Pontarddulais a enillodd wobr goffa Llwyd o'r Bryn. Fe fu ei fam yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Bryntaf am gyfnod a bu ei dad, Ifor, yn athro'r Gymraeg yn y ddinas.

## *Llongyfarchion...*

- I Non Gwilym, Highfields, ar ennill gradd anrhydedd mewn Hanes a Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Bydd yn dychwelyd yno yn y man i wneud gwaith ymchwil.
- I Alun a Helen Higham, Mynydd Bychan ar enedigaeth gefeilliaid, Llion Alun ac Eilir Wyn.
- I Ceri Gwynfryn ar ennill gradd BSc mewn Seicoleg Meddygol. Bydd yn parhau i ddilyn astudiaethau meddygol yng Ngholeg Meddygol Guy a Sant Thomas, Llundain. Pob hwyl iddo yn ei yrfa.
- I Gill Stephen, Heol y Wenallt, Rhiwbeina, ar ei phenodiad yn diwtor-drefnydd Cymraeg i Oedolion, De Morgannwg. Mae wedi dechrau ar ei gwaith erbyn hyn ac fe'i lleolir yng Ngholeg Glanhafren.
- I Mr a Mrs W Noel Jones, Cilgant Penciseley, Llandaf ar enedigaeth ŵyr bach arall. Ganwyd mab, Ifan Gwern i Lyn Meurig Jones a Dr Elin Ellis Jones ym Metws yn Rhos, Clwyd ym Mehefin. Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Tecwyn Ellis ar enedigaeth eu h ŵyr cyntaf.
- I Siwan a James Mathews, Treganna, ar enedigaeth Hopcyn Jams, brawd bach i Cadi a Morfudd.
- I Angharad Dafydd, a John Styles, y ddau o Ystum Taf, ar eu priodas beth amser yn ôl. Mae Angharad yn ferch i Tom Davies, sy'n gofalu am ein colofn chwaraeon ac Eirwen Davies.

# Brehines Berwyn

GADAWYD bwlch enfawr yn Eglwys y Tabernacl pan fu farw Enid Arwel Hughes ac fe ddaeth tyrfa sylweddol i'w harwyl, a llawer yn teithio o'r Gogledd a'r Gorllewin i ymuno â phobl Caerdydd mewn oedfa i ddiolch am ei bywyd.

Daeth i'r Tabernacl o eglwys Minny Street lle roedd ei thad yn flaenor amlwg, pan briododd â'r cerddor adnabyddus o'r Rhos, y diweddar Arwel Hughes. Nodweddwyd Enid â llawenydd cynhenid ac roedd o bersonoliaeth ddiymhongar ac o hyd yn awyddus i gefnogi eraill yn eu gwaith. Bu'n gefn ac yn gymorth gwerthfawr iawn i yrfa ei chymar, ac yntau yn ymddiried llawer iawn i'w gallu naturiol i drefnu. Anwylodd bob adran o fywyd yr eglwys, gan roi o'i gorau i'r gymdeithas. Roedd yn gymhathiad cyflawn o Mair a Martha gan ei bod wrth ei bodd yn gweini'r byrddau, ac yn ei helfen wrth gyfrannu i'r bwrlwm cymdeithasol sy'n nodweddu'r eglwys. Roedd ganddi flas at bregeth ac roedd yn ffyddlon i'r Cwrdd Gweddi, yr ysgol Sul a Chyfarfod y Chwiorydd. Cysegrodd ei doniau cerddorol i wasanaethu'r eglwys ac fe'i gwelwyd hi am flynyddoedd lawer yn cyfeilio'r mawl ac yn aelod gwerthfawr a chyson o gôr y Tabernacl. Cefnogai'r gymdeithas sy'n hyrwyddo achos dioddefwyr crud y cymalau (ARC) ac fe ganodd ei chôr merched yn gyson i gasglu arian at achosion da eraill.

Cydymdeimlwn gyda'i phlant Delun, Owain ac Ieuan a'u teuluoedd gan sylweddoli iddynt golli un o'u ffrindiau gorau a'u cefnogydd pennaf ym marw un o anwylaf o ferched Caerdydd. Diolchwn am y gras a ddatguddiwyd yn ei bywyd a'r gobaith a geisiai er lles eraill.

**This month's Welsh learners' feature takes a look at accusations and the appropriate response**

# Ar bwy mae'r bai?

DYSGU CYMRAEG
YNG NGOFAL
ALUN A MAIR TREHARNE

## CYHUDDO, GWADU A DERBYN BAI

Does neb yn hoffi cael ei gyhuddo (accuse) o rywbeth. Os cewch chi eich cyhuddo, mae angen ichi ymateb (respond), wrth gwrs. Rhaid ichi dderbyn y bai (blame) neu rhaid gwadu'r cyhuddiad (deny the accusation). Mae'n anodd bod yn gwrtais weithiau o dan y fath amgylchiadau (under such circumstances), ond rhaid i chi beidio â gwylltio (lose your temper)!

## CYHUDDO

**Enghreifftiau:**

Mae rhywun wedi taflu'r amlen a'r siec i'r bin!
Mae e wedi bod yn smygu yn y tŷ bach eto.
Daethoch chi adre yn hwyr iawn, iawn neithiwr.
Roedd hi'n gyrru'n llawer rhy gyflym ar y pryd (at the time).
Rydych chi wedi yfed y coffi i gyd, y cnafon (you rogues).
Roedd e'n gweithio'n iawn cyn i chi ei ddefnyddio fe.

Mae dwy ffordd o gyhuddo.

*Cyhuddo drwy wneud gosodiad (statement)*

Os ydych chi am bwyntio eich bys at rywun arbennig, rhowch enw'r person, neu'r rhagenw (pronoun) yn gyntaf:

**Enghreifftiau:**

Chi daflodd yr amlen a'r siec i'r bin?
Aled dorrodd y peiriant.
Elen sy'n gyfrifol am hyn (responsible for this), dwi'n siwr.
Ti/Chi/Fe/Hi/Nhw wnaeth (did it).
Ateb: Ie/Nage bob tro.

## CYHUDDO DRWY OFYN CWESTIWN

*Beth rwyt ti wedi'i wneud i'r planhigion hyn?*
*Beth sy'n bod ar hwn?*
*Pam nad yw hwn yn gweithio y bore 'ma? Roedd e'n iawn neithiwr.*

Eto, os ydych chi am gyhuddo person arbennig, enwch e/hi/nhw yn gyntaf:

**Enghreifftiau:**

Ti wnaeth hyn?
Tomos a Sion sy'n gyfrifol am hyn?
Nhw adawodd y tŷ yn y cyflwr 'ma? (in this condition)
**Ateb: Ie/Nage bob tro.**

## YMATEB

Mae dwy ffordd o ymateb.

*Gwadu:*

**Enghreifftiau:**

Dim arno i mae'r bai (fault/blame).
Dim fi sy ar fai (at fault/to blame).
Eich bai chi ydy/oedd e.
Bai Alun oedd e.
Dôn i ddim yn agos i'r lle ar y pryd.
Roedd y peth yn iawn gynnau fach (just now/earlier).
Wnes i ddim cyffwrdd â fe, wir.
Mae e wedi bod fel 'na (like that/in that condition) ers wythnosau.
Mae'r peth yn ddirgelwch llwyr (complete mystery) i fi.

*Derbyn y bai:*

**Enghreifftiau:**

Fy mai i ydy e (It's my fault)
Eu bai nhw ydy'r cyfan.
Mae'n ddrwg iawn gen i.
Dylwn i fod wedi ystyried (consider) pobl eraill.
Dylen ni fod wedi bod (We should have been) yn fwy gofalus.
Ddylwn i ddim fod wedi rhegi (swear).
Wnewch chi faddau i fi (forgive me) os gwelwch yn dda?

## Mae Alun a Mair yn ychwanegu...

Dyma ein colofn olaf ni ar gyfer y Dinesydd. Gobeithio i ni fod o gymorth (of assistance) i chi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Daliwch ati! (Keep at it!) Peidiwch ag ofni mentro (have a go) yn Gymraeg. Pob hwyl i chi!

*Mae'r Dinesydd am ddweud "Diolch yn fawr" wrth Alun a Mair Treharne am gyfrannu erthyglau da mor gyson i'r papur. Fe wyddom yn iawn bod y gwaith wedi bod o help mawr i Ddysgwyr a bydd yn golled fawr ar eu holau (we'll all miss them).*

*Rhwydd hynt (all the best) iddyn nhw yn y dyfodol.*

*Ond dyw pethau ddim yn dywyll i gyd. O fis Hydref ymlaen bydd tudalen y dysgwyr o dan ofal Gill Stephens. Gallwn edrych ymlaen at wersi da ganddi ac mae'r Dinesydd yn ddiolchgar iddi am gamu i'r bwlch (stepping into the breach).*

D

YSGOLION

*Noddwyd y tudalennau hyn gan*

MIDLAND
*Y Banc sy'n Gwrando*
Member HSBC Group

### Cipolwg y mis hwn ar fywyd Ysgol Y Wern, Llanisien

# Môr o gân yw'r Wern i gyd

Mae'r ysgol yn paratoi ar gyfer cyngerdd i'r rhieni 5ed Gorffennaf 1995

*Medd Rhian Phillips:* "Bob dydd Mercher rydym yn cwrdd yn y neuadd i gael ymarfer yr ensemble. Enw ein hathrawes ydy Mrs Owen. Dau o'r offerynnau sydd yn yr ensemble yw'r cello a'r ffidil. Arweinydd yr ensemble ydy Rhian Evans ac arweinydd y cello ydy Rhian Phillips. Yn y gyngerdd chwaraeon ni Ecosaire, Rigadoon a'r Italian Hymn of Praise. Fe ges i hwyl ar chwarae yn y cyngerdd".

*Medd Rhiannon Jenkins:* "Yn y cyngerdd hwn cafodd grŵp o offerynnau dro i berfformio darn. Roedd y plant hynaf a oedd yn chwarae'r cellos yn chwarae darn o'r enw Frog Dance a Jupiter's Theme. Bu'r plant ifanc yn chwarae darnau fel Choo Chug a Chug, Fish Cakes and Apple Pie a Mad as a Hatter.

Roedd y cyngerdd yn llwyddiannus y flwyddyn yma ac rwy'n gobeithio y caiff ei gynnal eto'r flwyddyn nesaf.

*Medd Ceri, Lisa ac Angharad:* Roedden ni'n canu'r delyn ar ein pen ein hunain fel unawdau. Chwaraeodd Lisa gyntaf; y darn oedd Menuet o Ffrainc. Yna chwaraeodd Angharad ddarn o'r enw Purple Bamboo o China. Yn olaf chwaraeodd Ceri ddarn o'r enw Petite Etude o Ffrainc. Rydym yn mwynhau chwarae'r delyn yn fawr iawn.

*Medd Bethan Herbert:* Roedd nifer o blant yn canu'r ffidil. Rhai o'r darnau ar y ffidil oedd Shortening Bread, Tell Tale Tango a Cradle Song. Yn gyntaf roedd Blwyddyn 4 a chwaraeodd Sorting Bread. Wedyn tro Blwyddyn 5 oedd hi ac yn olaf Blwyddyn 6. Eu darnau nhw oedd Tell Tale Tango a Cradle Song. Roeddwn i wedi mwynhau'n fawr iawn.

# Buddugoliaeth

Llongyfarchiadau mawr i Iestyn Shapey (gwelwch ei lun gyda'r tim ar y dudalen hon) a ddaeth yn fuddugol am ganu'r ffliwt yng Nghystadleuaeth Chwythbrennau yn Eisteddfod yr Urdd ym Mro'r Preseli.

## DYDDIADUR YSGOL Y WERN

**Mehefin 27ain**: Dosbarth Derbyn yn ymweld â Chastell Caerdydd.

**Gorffennaf 3ydd**: Blwyddyn 2 yn ymweld â Llancaiach fawr

**Gorffennaf 4ydd**: Blwyddyn 1 yn treulio'r diwrnod yn yr Amgueddfa Werin a Blwyddyn 3ydd yn ymweld â Phencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr.

**Gorffennaf 11eg**: Blwyddyn 4 yn ymweld ag ogofâu Danyrogof.

**Gorffennaf 12fed**: Blwyddyn 5 yn ymweld â'r Amgueddfa Americanaidd ger Caerfaddon.

**Gorffennaf 14eg**: Gwibdaith Blwyddyn 6 i'r Black Country Museum, Dudley.

# Diogelwch ar y ffordd



I GYRRAEDD rownd derfynol Caerdydd roedd yn rhaid i ni guro pum tim arall. Curon ni y Rhath, Lakeside a St Mary's. Erbyn hyn roedd y capten (Siôn Wright) wedi mynd i gael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Roedd yn rhaid i Elian gymryd ei le. Yn y bedwaredd rownd fe guron ni Sant Cadog gyda'r sgôr uchaf erioed, sef 44 o bwyntiau. Curon ni Millbank i gyrraedd rownd derfynol Caerdydd. Erbyn i'r rownd derfynol ddigwydd roedd Siôn wedi gwella ac fe ddaeth yn ôl i'r tîm. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Neuadd y Sir o flaen cynulleidfa o rieni, cynghorwyr a ffrindiau. Daethom yn ail ymhlith ysgolion Caerdydd. Roedd yn noson i'w chofio, a dyma lun ohonom ni.

*Cefn: Iestyn Shapey, Siôn Wright, Aled Evans; blaen: Eilian Jones, Rhodri Evans*

**Atgof Eisteddfod yr Urdd gan Siôn Tudur, un o ddisgyblion Glantaf**

# Sôn am Steddfod

Yn hwyrach na'r disgwyl ar y nos Iau, 1 Mehefin fe gyrhaeddodd dau lond bws mini o Lantaf neuadd bentref Llandudoch. Yn ein disgwyl roedd criw o ferched Llandudoch a phaned a swper yn barod i ni. Fe'n cyflwynwyd i'r fan y magwyd Mr Peter Manning, ein hathro chwaraeon, ac wedi hynny fe ddechreuoson ni ymarfer. Dyma'r canfed tro i'r rhan fwyaf ohonom fod dros ein gwahanol ddarnau ac yn ôl Miss Delyth Medi Jones a Miss Meleri Jones roedden ni ymhell o fod o safon genedlaethol. Ac felly yr ymarferwyd nes cyrraedd perffeithrwydd. Yna fe gafwyd cyfle i fynd am ychydig o awyr iach ac i ymweld â'r pentref, a'r pwylais ar fod yn ôl yn gynnar, gan y byddai trannoeth yn ddiwrnod mor bwysig.

Fe fu'n rhaid inni godi'n anarferol o blygeiniol i rai ohonom, am hanner awr wedi chwech. Rhy gynnar! Wedi cicio Rhodri Llywelyn o'i wely fe gafwyd brecwast, diolch i wragedd Llandudoch, ac yna i mewn â phawb i'r bysys mini a throi at ysgol y Preseli lle roedd y rhagbrofion yn cael eu cynnal. Gyda rhai ohonom heb ddeffro'n iawn fe'n llusgwyd o ragbrawf i ragbrawf, yna fe ddaeth pawb at ei gilydd yn yr iard i gael y canlyniadau. Dyna'r adeg fwyaf arteithiol i ni mewn eisteddfod. Dyma lle y gwireddir neu y chwelir breuddwydion. Fe ddaeth y canlyniadau un wrth un ond y gystadleuaeth oedd yn uno pawb yno oedd un y cor, 15 - 19, S.A.T.B. ac fe gyrhaeddodd ein côr ni'r llwyfan. Roedden ni'n falch tu hwnt o gyrraedd mor bell.

I lawr â ni i'r maes wedyn am ddwyawr o eisteddfota cyn cwrdd â'n hathrawon am dri. Doedd ein cystadleuaeth ni ddim tan saith yn yr hwyr, y gystadleuaeth olaf. Fe ddaeth yr amser yn ddigon cyflym a phawb yn dechrau mynd yn nerfus wrth wylio'r corau eraill yn perfformio'r gân oedd mor gyfarwydd i ni erbyn hyn.

Does dim ansoddair i ddisgrifio'r teimlad o fod ar lwyfan y genedlaethol. Mae'n brofiad unigryw. Yna yn ôl i gefn y llwyfan i ddod o hyd i set deledu a disgwyl am y canlyniadau. Yna Angharad Mair yn dweud, "Ac yn awr ymlaen at ganlyniad y gystadleuaeth i gorau...."

Ymysg yr holl sŵn chlywodd neb y canlyniad. Ond roedd gweld Branwen yn cerdded i'r llwyfan yn ddigon i yrru Glantaf yn wallgof a gweiddi bonllef gref o fuddugoliaeth. Yna'r anthem genedlaethol a phob nodyn yn dod o waelod pob calon, cyn inni fynd allan i gael ein lluniau wedi eu tynnu. Yna yn ôl yn y bws mini a chael canu'r holl ffordd adre, heb orfod poeni am y "cordiau focal" ac aros am fwyd ar y ffordd yn ôl i wareiddiad.

YSGOLION

*Noddwyd y tudalennau hyn gan*

**MIDLAND**

*Y Banc sy'n Gwrando*

*Member HSBC Group*


# GWIREDDWCH EICH BREUDDWYDION GYDA LIVECASH!

DYCHMYGWCH grwydro o amgylch set Baywatch yng Nghaliffornia. Breuddwyd amhosib? Chewch chi byth wybod os na fyddwch chi'n rhoi cynnig arni. A chyda chyfrif Livecash gan Midland, gallwch chi roi cynnig arni. Mae cyfrifon Livecash ar gyfer pobl 11-15 oed, a chaiff enwau'r rhai sy'n agor cyfrif o hyn tan ddiwedd Rhagfyr eu rhoi mewn het ar gyfer *Cystadleuaeth Baywatch* ym mis Ionawr 1996.

Ond peidiwch â phoeni rhyw lawer os na fyddwch chi'n ennill. Mae llawer mwy i ddeiliaid cyfrifon Livecash. O fuddsoddi dim ond £1, yn ogystal â chael cyfrif banc gwych, gallwch arbed arian mawr gyda llond llyfr o Livecheques i'w defnyddio ar gyfer y canlynol:

*Cryno-ddisgiau, casetiau a thapiau fideo*
*Gemau cyfrifiadur a fideo (arbed hyd at 50%)*
*Pizzas rhad ac am ddim yn Pizzaland*

(Gweler ein llyfryn Livecash am ragor o wybodaeth.)

Ac nid dyna'r cyfan. Mae pob deiliad cyfrif Livecash newydd yn cael ei roi mewn het ar gyfer Cystadleuaeth Fisol - i'w tynnu bob mis tan Rhagfyr 1995. Bydd yr enillwyr lwcus yn derbyn casgliad o fideos Baywatch a recordydd fideo newydd ar gyfer eu gwylio.

Ond mae Livecash yn dal i roi manteision i chi o hyd. Os ydych rhwng 13-15 oed, gallwch gael cerdyn Livecash sy'n eich galluogi i gael gafael ar eich arian mewn unrhyw beiriant hunan-wasanaeth Midland 24 awr y dydd. Os ydych chi rhwng 11-12 oed, fe gewch chi arian dros y cownter yn y gangen lle yr agoroch chi'r cyfrif. Waeth beth yw eich oedran, cewch dalu arian i mewn trwy ddefnyddio eich llyfr talu i mewn.




Yn wahanol i rai banciau a chymdeithasau adeiladu, fe dâl Livecash gyfradd llog ddeniadol ar bob ceiniog yn eich cyfrif.

Fe gewch chi gyfriflenni cyson sy'n manylu ar yr union swm rydych chi wedi ei dalu i mewn a'i dynnu allan ac, yn bwysicach fyth, faint o log mae e wedi'i ennill. Fe gewch chi ddefnyddio'ch cerdyn Livecash yn unrhyw beriant arian Midland i ddarganfod faint o arian sy'n weddill, neu i archebu cyfriflen ychwanegol.

A pheidiwch a phoeni, gyda Livecash mae bron yn amhosib gordynnu. Bob tro y byddwch yn defnyddio'ch cerdyn, mae ein peiriannau hunan-wasanaeth yn archwilio eich balans cyn iddyn nhw roi'r arian.

### RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH

1. Fe gynhelir y gystadleuaeth o dan y telerau canlynol:
1) Fe gynhelir y gystadleuaeth fisol ar ddydd olaf pob mis calendr, a thynnir yr enw olaf ar ddydd Sul Rhagfyr 31, 1995.
2) Fe gynhelir y gystadleuaeth fawr ar ddydd Gwener Ionawr 5, 1996.
2. Fe hysbysir yr ennillwyr trwy lythyr ymhen 7 niwrnod ar ôl pob cystadleuaeth.
3. Hyd at 3 aelod o'i deulu (i gynnwys o leiaf un rhiant neu geidwad) a all fynd gyda'r enillydd ar y daith i Malibu.
4. Ni ddarperir arian yn lle'r gwobrau.
5. Dim ond un cais ar gyfer pob person a ganiateir. Ni chaniateir i weithiwyr Banc Midland a'i is-gwmnïau, eu teuluoedd neu unrhyw un yn gysylltiedig â'r hyrwyddiad yma i ymgeisio.
6. Fe ofynnir i enillwyr gymryd rhan yng ngweithgareddau hyrwyddo a drefnir gan Fanc Midland yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth.
7. Fe ystyrir bod pob ymgeisydd i'r gystadleuaeth wedi derbyn y rheolau yma a'u bod ynghlwm iddynt.
8. Fe ddarperir rhestr o'r enillwyr i'r rhai sydd yn anfon amlen wedi'i chyfeirio i'r cyfeiriad isod yn dwyn y gair "Winners".
9. Hyrwyddwr: Midland Bank Plc, Marketing Services, Business Development, Silver Street Head, Sheffield S1 3GG.

Rhagor o newyddion Ysgol Glantaf



## Mae dau ddisgybl yn ffarwelio â'u hen brifathro ar ei ymddeoliad diweddar

# Ffarwel i J.E.M.

Ers y tro cyntaf i ni osod ein traed ar dir cysegredig Glantaf, daw enw un person yn syth i'r meddwl wrth sôn am yr ysgol, y person y gellid erbyn hyn gyfeirio ato fel "Guru Glantaf" sef y cyn-brifathro, a'r unig gyn-brifathro yn hanes yr ysgol, Mr Malcolm Thomas. Mae ei arweiniad o'n dyddiau cyntaf ni ym mlwyddyn saith ac i ddisgyblion eraill oddi ar agoriad swyddogol yr ysgol yn ôl yn 1978 wedi bod yn unigryw.

Oddi ar ei araith gyntaf a gyflwynodd i ni ym Medi 1989 ar ddechrau ein taith trwy'r ysgol, pwysleisiodd bwysigrwydd gweithgareddau allgyrsiol, yn ogystal â'r gwerthoedd academaidd. Cyflwynodd yr elfen o hwyl i ni yn ein blwyddyn gyntaf drwy ymgymryd â'r dasg o ddynwared y cawr Bendigeidfran ym mhantomeim "mawreddog" yr athrawon.

Gellir ei weld ym misoedd oer y gaeaf yn y gwynt a'r glaw yn annog timau rygbi'r ysgol ymlaen yn frwdfrydig ar foreau Sadwrn. Tra'n chwysu ar y cae clywn floeddiadau fel "Ymlaen Glantaf" o'r ystlys a Mr Thomas yn gyffro i gyd fel petai ym Mharc yr Arfau yn annog y tim cenedlaethol i ennill.

Yna yn ddiweddar roedd ei bresenoldeb yn amlwg wrth i'r côr hŷn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Bro'r Preseli. Yn groes i'r disgwyl, Mr Thomas yn hytrach na'r disgyblion oedd yn gweiddi "ogi, ogi, ogi" ar draws maes yr eisteddfod, yn dangos ei falchder yn llwyddiannau ei ysgol.

Mwynheai y cyfle yn flynyddol i ddod â'r ysgol ynghyd yn y gwasanaeth carolau ar derfyn blwyddyn. Cydiai yn y faton ag awdurdod a chanai nerth ei ben, ei lais yn boddi lleisiau ei holl ddisgyblion. Eto mae yn ei elfen yng nghanol y sylw fel archdderwydd seremoni cadeirio'r eisteddfod yn yr ysgol wrth iddo gydio yn y cleddyf a gofyn y cwestiwn, "A oes heddwch?" Ac yn wir y flwyddyn ddiwethaf derbyniwyd ef yn aelod o'r wisg wen yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain.

Ffarweliwyd ag ef â chyngerdd yng nghwmni Anthony Lloyd ac erbyn diwedd y cyngerdd hwnnw doedd neb yn siwr pwy oedd y seren, y canwr opera neu'r prifathro. Ac mae wedi bod wrthi'n bwyta ciniawau diderfyn i gofio am ei waith yn yr ysgol - a pham lai, wedi pymtheg mlynedd o addysgu plant Cymraeg y ddinas.

Wrth edrych yn ôl, gwelwn ef fel arweinydd, bugail a chymeriad addfwyn, cynnes a roddodd bob cyfle i'w ddisgyblion. Fe fydd y dasg o ddilyn ôl ei droed yn anodd.

**Catrin Williams a Rhodri Llywelyn**

# Ffair haf

Trefnwyd ffair haf lwyddiannus gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a gwnaethpwyd elw o dros £3,000. Bydd yr arian yn mynd at brynu bws mini newydd i'r ysgol.

# "J.E.M." o noson

Bu Mr Malcolm Thomas yn brysur iawn yn ddiweddar yn ymuno â gwahanol grwpiau oedd yn awyddus i dalu teyrnged a dymuno'n dda iddo ar achlysur ei ymddeoliad.

Nos Wener 14 Gorffennaf roedd yn Nhŷ Dyffryn Sain Nicholas pan gafodd athrawon presennol yr ysgol, ynghyd â sawl cynaelod o'r staff, eu cyfle i ffarwelio ag ef. Yno cafwyd cyfle i edrych yn ôl dros 17 blynedd ers cychwyn yr ysgol a chydnabod arweiniad doeth a sicr y prifathro. Talwyd teyrngedau iddo gan Mr John Rees a ymddeolodd llynedd o'i swydd fel cofrestrydd academaidd a Mr Alun Guy, Pennaeth yr Adran Gerdd, y ddau'n athrawon yn yr ysgol o'r cychwyn cyntaf, y ddau'n tystio i gyfeillgarwch a gofal y prifathro dros yr ysgol, yr athrawon a'r disgyblion. Mrs Brenda Goodfellow, Mrs Julie Morse ac ysgrifenyddes y prifathro, Mrs Joyce Williams a gafodd y pleser o gyflwyno anrhegion yr athrawon iddo.

Diweddwyd y noson gyda Miss Delyth Medi Jones yn canu penillion a gyfansoddwyd yn arbennig i gofio'r achlysur Ymunodd pawb yn y penillion olaf hyn:

Y mae tristwch yma heno
Ac ar rudd y dagrau ddaw,
Gweled mynd ei ddifyr sgwrsio
Colli campwr shiglo llaw.

Boed it Malcolm yw'r cri unfryd
Aur y byd a'i berlau mân,
Byddet it gael gorau iechyd
Ydyw'n gweddi, gweddi lân."

# Cyfartaledd da

Cymerodd Ysgol Glantaf ran mewn Cystadleuaeth fathemateg, yr UK International Maths Challenge i flynyddoedd 9, 10 ac 11. Enillodd 15 o ddisgyblion dystysgrif aur, 18 dystysgrif arian a 15 dystysgrif efydd. Enillodd Gwyn Brown, blwyddyn 11 y marc uchaf a chael yr anrhydedd o fynd ymlaen i'r rownd nesaf.

Cynhaliwyd cystadleuaeth debyg i flynyddoedd 7 ac 8 ac enillodd tri o'r disgyblion dystysgrif aur 6 arian a 9 efydd. Yn y ddwy gystadleuaeth roedd canlyniadau Glantaf yn well na chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol.

# Brwdfrydedd y mabolgampau

AM Y tro cyntaf erioed cynhaliwyd mabolgampau Ysgol Glantaf eleni yn Stadiwm Athletau Lecwydd. Bendithiwyd un o ddyddiau olaf Mai â thywydd heulog a sych a chafwyd cystadlu brwd rhwng y pedwar llys.

Gymaint oedd brwdfrydedd y disgyblion i gystadlu mewn dwy gystadleuaeth maes a dwy gystadleuaeth drac fel i ambell gystadleuaeth bara am awr a hanner!

Roedd cynrychiolaeth dda o'r disgyblion yn cystadlu a'r gweddill yn mwynhau gwylio'r cyfan o'r eisteddle dan do. I gloi'r dydd llwyddiannus cafwyd rasys cyfnewid cyffrous tu hwnt gan fod canlyniadau'r rhain yn dyngedfennol i'r safleoedd terfynol.

Yn gyntaf daeth Tŷ Dyfrig (1472 pwynt), yn ail Tŷ Dewi (1153 pwynt), yn drydydd, Tŷ Illtud (1,104 pwynt) ac yn bedwerydd Tŷ Teilo (1,102 pwynt). Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill y mwyaf o farciau yn eu blwyddyn:

**Blwyddyn 7** - Charlotte Davies a Rhodri Morgan
**Blwyddyn 8** - Siân Harries a Geraint Williams.
**Blwyddyn 9** - Elena Rowlands a Geraint John
**Blwyddyn 10** - Sharyn Crayford a Stuart Styles
**Blwyddyn 12** - Rhian Taylor a Richard Crayford.

Gobeithio y cawn ymweld â'r stadiwm y flwyddyn nesaf eto.

## *Llongyfarchion...*

☆ I ferched blynyddoedd 7 ac 8 ar ennill cynghrair ysgolion De Morgannwg ac ennill y bencampwriaeth ryng-sirol yng Nghaerfyrddin.

☆ I ferched blynyddoedd 8 a 9 oedd yn fuddugol yng nghystadlaethau'r Urdd yn Aberystwyth gyda merched blwyddyn 7 yn ail.

☆ I Rona Duncan a Richard Crayford ar gynrychioli ysgolion De Morgannwg ym Mhencampwriaeth Athletau Ysgolion Cymru.

☆ I Tom Roberts a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth ysgolion De Morgannwg, chwarae tennis i rai dan 13 oed.

☆ I Nicky Robinson am ennill lle yn nhîm criced ysgolion Dwyrain Cymru. Bu Geraint Way yn cynrychioli'r ysgol yn nhîm dan 13 ysgolion De Morgannwg.

☆ I Katie Sadler a Stephanie Merrifield am ddod yn bencampwyr badminton ysgolion De Morgannwg.

☆ I Siwan Gruffydd, blwyddyn 9 am ennill £500 i'r ysgol mewn cystadleuaeth goginio o dan nawdd Cwmni Selsig Lazenby. Roedd ei rysait hi'n un o ddeuddeg a aeth ymlaen i'r rownd derfynol.

☆ I Nansi Jones, Leah Millet a Catrin Foster am ennill cystadleuaeth Technoleg Allied Steel i ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgolion De Morgannwg.

☆ I Gareth Triggs, Gareth Murphy, Bryn Thomas, Janice Robinson a Sarah Kingdom am ddod yn bencampwyr Cymru yn y gystadleuaeth dechnoleg a noddwyd gan gwmniau Rover a Howells, Caerdydd.



# Ennill eto

LLONGYFARCHION i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Penarth ar ddod yn bencampwyr y Cwis Llyfrau Cenedlaethol unwaith eto.

Yn y llun fe welir, o'r chwith i'r dde: Tomos Lewis, Bethan Franks, Erin Richards, Iwan Davies, gyda'u hathrawes, Mrs Gill Lloyd.

Ysgol Penarth yw'r gyntaf i dderbyn tarian Dr Dewi Davies, tarian a gyflwynir yn flynyddol i fuddugwyr y cystadlaethau llyfrau i ysgolion cynradd.

Ar ôl ennill y rownd sirol ym mis Mawrth aeth y tîm ymlaen i'r rownd genedlaethol yn Aberystwyth. Ar ôl diwrnod o gystadlu brwd fe ddaeth y tîm i'r brig drwy ennill y gystadleuaeth genedlaethol yr ail flwyddyn yn olynol.

Llongyfarchiadau i'r plant a fu wrthi'n ddyfal dros y misoedd yn darllen, trafod a dysgu'r cyflwyniad, a diolch o galon hefyd i Mrs Gill Lloyd eu hathrawes am eu paratoi mor drylwyr. Cânt benwythnos yn Iwerddon yn wobr an ennill.

# Môr-ladron buddugol



YCHYDIG wythnosau'n ôl daeth newyddion da i Ysgol Bro Eirwg. Daeth dosbarth Blwyddyn 4 a'i athrawes Mrs Hedydd Hawkley yn un o enillwyr gwobr arbennig mewn cystadleuaeth genedlaethol gyfrifiadurol.

Thema'r rhaglen amlgyfrwng oedd y Môr-leidr enwog o Lanrhymni, Harri Morgan. Bu'r plant wrthi'n brysur yn creu rhaglen gyffrous am Harri Morgan. Lluniwyd un gynhwysfawr a diddorol oedd yn cynnwys lluniau, dialogau a chaneuon yn ogystal â gwaith cymhleth gyfrifiadurol. Yn naturiol mae pawb yn yr ysgol wrth eu bodd.

Roedd y seremoni wobrwyo yn Birmingham ar ddiwedd Gorffennaf. Enillwyd peiriant amlgyfrwng Window Box, crynoddisgiau Encarta a Space Encyclopaedia a PC C2.

Mewn beirniadaeth ardderchog canmolwyd y plant am eu gwaith gwych - gwobr haeddiannol am oriau o waith caled ganddyn nhw a Mrs Hawkley.

# Cymrodorion ar ddathlu eu 90 oed




BYDD Cymdeithas Cymrodorion y Barri yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar Ŵyl Dewi 1996. Mae un o'r bobol yn dal i gofio'r sefydlu gan ei bod o hyd ar dir y byw - Miss Vaughan Jones, merch un o'r sylfaenwyr a fu'n gefn i'r gymdeithas am flynyddoedd lawer sef yr enwog Major Edgar Jones. Bu'r Gymdeithas yn ffodus yn yr olyniaeth o ddynion ymroddgar a fu'n ei llywio. Yn eu plith fe gofiwn am Arthen Evans, Griffith Jones a Mrs W D Jenkins, yn ogystal ag Edgar Jones. Mae'n ddiddorol nodi i Gwenallt fod yn ysgrifennydd am gyfnod.

Saif ein llywydd eleni yn yr olyniaeth, sef y llenor a'r ffraethebwr Islwyn Jones. Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod fel rheol ar y trydydd nos Fawrth o'r mis yn festri Capel y Tabernacl, King Square. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar Fedi 19eg i gychwyn am 7.15. Edrychwn ymlaen at glywed Wyn James o Adran Gymraeg y Brifysgol yn darlithio ar: "Emynyddesau Cymru".

Mae croeso i Gymry'r cylch ymuno a'r Gymdeithas. Y tâl aelodaeth yw £2. Medrir cael manylion pellach drwy gysylltu â'r ysgrifennydd, John Williams, (01446) 745620.

# Dawnsio mewn cylch

CYNHALIODD Cylch Meithrin Rhiwbeina Dwmpath Dawns llwyddiannus iawn yn Neuadd Eglwys yr Holl Saint, Rhiwbeina yng nghanol Mehefin. Yn ystod y noson cafwyd datganiad hyfryd ar y delyn gan ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llanhari sef Nia Emlyn Jones a Ruth Hicks o ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

# Gwyl Feithrin MYM

Cynhaliwyd Gŵyl Feithrin flynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin ddiwedd Mehefin. Gorymdeithiodd holl gylchoedd meithrin Cymraeg y ddinas a'r Fro o dan eu baneri at Ganolfan Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Soffia. Yn arwain roedd dau o geffylau hardd yr Heddlu. Yna cerddwyd dros Bont Treganna ac i mewn i'r castell lle cafwyd adloniant gan Martin Geraint, a phicnic ar y glaswellt. Roedd y plant wrth eu bodd yn canu nifer o ganeuon ar thema'r ŵyl sef "Adar ac Ainfeiliaid".

# Cymdeithasu a chofio

MAE HYWEL a Gwyneth Jeffries wedi bod yn cynnal nifer o nosweithiau "Cymdeithasu a Chofio" yn ddiweddar lle mae nifer o ffrindiau yn cael gwahoddiad i'w haelwyd i wledda ac yna i fynd i sesiwn gyngerdd/gymdeithasu sy'n seiliedig ar thema. Ddechrau'r haf, er enghraifft, gwahoddwyd Y Parchedig Saunders Davies a Cynthia yn ôl am seibiant o Gricieth i noson o'r fath a bu sesiwn hwyliog a dwys ar thema "Heddwch". Ychydig wedi hynny, gwahoddwyd Cymrodorion Y Barri draw am noson a'r thema oedd Yr Ail Ryfel Byd. Cafodd hwnnw driniaeth hwyliog a sobr. Y sesiwn nesaf sydd yn yr arfaeth (yn Ionawr) yw un ar Eisteddfod Fawr Chicago. Enillodd côr merched o Gaerdydd, o dan arweinyddiaeth Clara Novello Davies wobr bwysig yn yr eisteddfod honno. Edrychir ymlaen yn fawr at y wledd.

# Croeso cynnes

MAE Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn bod er gaeaf 1942. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu'n cyfarfod yn gyson ar yr ail nos Wener yn ystod chwe mis y gaeaf yn festri Capel Bethel yng nghanol y pentref am 7.30 o'r gloch.

Cartrefodd llawer o Gymry yn y rhan hon o'r ddinas yn ddiweddar a mawr fyddai'r croeso iddyn nhw pe baen nhw'n gweld yn dda ymuno â ni, a hefyd unrhyw un arall sydd yn byw o fewn cyrraedd. Estynnir croeso cynnes i Ddysgwyr. Mae rhai ffyddlon gyda ni eisoes.

Mae rhaglen amrywiol wedi'i pharatoi gan y pwyllgor a bydd y cyfarfod cyntaf ar 13eg Hydref. Noson y llywydd fydd honno.

Yn flynyddol yn Rhagfyr cynhelir cyngerdd yng Nghapel Bethel pan wneir casgliad at achos da. Cawsom noson ardderchog llynedd yn ystod llywyddiaeth y Parchedig Ddr. Dafydd Davies pan gasglwyd swm sylweddol at "Bobath Cymru". Eleni eto addawodd amryw o Gymry dawnus ac adnabyddus ddod i gynnal cyngerdd a'r tro hwn byddwn yn casglu at Apêl Cemotherapi i Ysbyty'r Felindre yma yn yr Eglwys Newydd. Daw'r tymor i ben ym mis Mawrth pan gawn swper cartrefol i ddathlu Gŵyl Dewi.

Mae'r rhaglen ar gael gan Mrs Megan Williams (10222 628733), ein hysgrifennydd gweithgar.

# Cyfarfod blynyddol

CYNHALIWYD cyfarfod blynyddol CYD De Morgannwg ar nos Iau 21 Gorffennaf yng Nghlwb Ifor Bach. Rhoddodd y cadeirydd Jenni Jones-Annetts amlinelliad o weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio ac fe'i llongyfarchwyd ar gael ei hethol yn Llywydd UCAC am 1995/96. Penderfynwyd cynnal Eisteddfod y Dysgwyr arall y flwyddyn nesaf a chyflwyno £150 i apel genedlaethol CYD. Etholwyd Jenni Jones-Annetts yn gadeirydd, Pete Bradley yn Drysorydd a Carole Townsend yn Ysgrifennydd. Am ragor o wybodaeth am weithgareddau CYD De Morgannwg, ffoniwch Caerdydd 763426.

# Derbyn yn gylfawn aelodau ym Methel Rhiwbeina



CAFODD pump o bobol ifanc eu derbyn yn aelodau llawn o eglwys Bethel, Maesyderi, Rhiwbeina. Croesawyd y pump, Sara Roberts, Huw Elfyn Jones, Llyr Dunsford, Trystan Francis a Rhodri Davies gan y Parchedig Pamela Cram. Diolchwyd i'r gweithiwr lleyg ym Methel, Mrs Tasmin Llwyd Graves am baratoi'r pump ar gyfer eu gwaith yn yr eglwys.

Sefydlwyd clwb arbennig ar gyfer yr ieuenctid ym Methel. Ar hyn o bryd mae'r clwb yn agored ar bnawniau Sul rhwng hanner awr wedi dau a phedwar.

*Yn y llun uchod, fe welir y Parchedig Pamela Cram (ar y dde) yn derbyn pump o aelodau newydd (ail o'r chwith): Sara Roberts, Huw Elfyn Jones, Llyr Dunsford, Trystan Francis, Rhodri Davies. Y cyntaf ar y chwith yw Mrs Tasmin Llwyd Graves.*

---

# Swper pen tymor

CYNHALIWYD Swper Pen Tymor Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar ddechrau Gorffennaf yn yr Holly Bush yn yr Eglwys Newydd. Fe ddaeth dros ddeugain ynghyd i wrando ar y gŵr gwadd, yr Athro Hywel Teifi Edwards. Roedd ganddo araith ffraeth a diddorol.

---

# Llywydd cymanfa

ELENI, Stephen Jones, mab Richard a Beti Wyn Jones, Cyncoed, oedd Is-lywydd Cymdeithas Cymanfa Ganu Ontario a gynhaliwyd yn Ninas Toronto ym mis Ebrill. Bu Stephen yn ddisgybl yn Ysgol Bryntaf ac yn Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi hynny. Mae brawd iddo, Eryl, yn byw yn Affrica.



**Mae'r *Dinesydd* yn holi un a gafodd ei hanrhydeddu am ei gwaith dyfal dros ymchil  y galon.**

# Stori galonnog



*Dyddiau gwell: Anne a Ken yn sefyll ger y Grand Canyon*

Agorodd Anne Innes, 6 Heol Wern-las, Yr Eglwys Newydd ei chopi o'r Western Mail ar ddiwrnod anrhydeddau'r frenhines eleni a chael ei bod yn aelod o'r Ymerodraeth Brydeinig ac y gallai o hynny allan roi'r llythrennau MBE wrth ei henw.

Dywedodd Anne wrth Y Dinesydd nad oedd y cyfan yn gwbl annisgwyl. Rywbryd ym Mai roedd wedi derbyn llythyr o Dŷ'r Cyffredin yn dweud i rai o'i chyd-weithwyr yn y Swyddfa Gymreig awgrymu i'w henw gael ei ystyried ar gyfer yr anrhydedd ac fe'i rhybuddiwyd i gadw'n dawel.

"Roedd yn gyfrinach ddigon anodd ei chadw," meddai Anne, "Ond fe ddywedais wrth Wyn a Ceri, y mab a'r ferch rai diwrnodau'n unig cyn y cyhoeddiad ac wrth gwrs roedden nhw wrth eu boddau. Ac mae ei hoff ffrindiau hefyd wrth eu boddau; yn falch i rywun a haeddai'r anrhydedd ei gael.

Roedd Mai 1982, dair blynedd ar ddeg cyn yr anrhydedd, yn adeg ddigon pryderus i Anne. Dyna pa bryd y cafodd ei diweddar ŵr, Ken, wybod, ei fod i fynd i Ysbyty Harefield i gael calon newydd. Ond trodd ei phryder yn llawenydd ym mis Gorffennaf pan allodd ei groesawu adref yn ddyn newydd gyda chalon newydd. Cyn hir roedd yn ôl yn ei waith fel prifathro Ysgol Brynderi, Radur.

Gwyddai'r ddau fod triniaeth ar gyfer cael calon newydd yn costio ymron £30,000 a gwyddent hefyd bod gan Ysbyty Harefield Ymddiriedolaeth, sef yr Harefield Heart Transplant Trust i'w helpu i gasglu arian at y treuliau. Fe wydden nhw hefyd am Gymdeithas Ymchwil y Galon a'r gangen weithgar yng Nghaerdydd ac aeth y ddau ati i'w helpu.

Erbyn hyn, mae Anne wedi casglu dros £10,000 ar gyfer gwaith ar y galon, yr arian wedi'i rannu fwy neu lai'n gyfartal rhwng Ymddiriedolaeth Harefield ac Ysbyty'r Mynydd Bychan, Caerdydd.

Bydd nifer ohonom yn cofio'r cyngerdd a drefnwyd yn Neuadd Gyngerdd Ysbyty'r Waun gyda Chôr Ieuenctid De Morgannwg a Stuart Boroughs yn rhoi o'u gwasanaeth am ddim.

Uchafbwynt y casglu oedd yr hyn a drefnwyd pan oedd Ken yn bump oed (h.y. pumed pen blwydd ei galon newydd). Yr adeg honno casglodd y ddau tua £6,000 ac mae Anne yn cofio caredi-

grwydd llu mawr o bobl a chymdeithasau. "Fi oedd yn gwneud y gwaith trefnu," meddai Anne, " a Ken yn llawn brwdfrydedd a chefnogaeth."

Pe bai Anne yn cael ei ffordd, byddai Ken, oedd mor boblogaidd gan bawb, yn mynd gyda hi yn y man i Blas Buckingham, i dderbyn yr anrhydedd, ond bu Ken farw yn Ionawr 1993. Eto teimlai Anne ei bod yn yr ysbryd yn rhannu'r anrhydedd ag ef a bu ei farw'n sbardun iddi fynd yn ei blaen gyda'r gwaith.

## Y cam nesaf

Gofynnodd Y Dinesydd iddi beth sydd ganddi nesaf ar y gweill. Dyma ddyddiad i ddyddiadur caredigion Y Dinesydd, felly:

30 Hydref 1995, ar fore Llun, mae maer y ddinas Mrs S M Davies YH yn trefnu bore coffi yn Nhŷ'r Maer. Dim ond 80 all fynd yno ac mae tocynnau (y gellir eu cael gan Anne yn 6 Heol Wern-las (Ffon: 616230) yn costio £2 yr un. Felly, brysiwch rhag ichi golli'r cyfle i gyfrannu at y £250,000 a mwy sydd wedi cael ei gasglu gan Gymdeithas Ymchwil y Galon. Yno cewch wneud mwy nag yfed coffi. Fe fydd yno stondinau cynnyrch cartref, crefftau ac ati. Mae siop Laceplace yn y ddinas yn dod â rhywbeth i'w werthu yno a bydd y cyfan yn fore rhagorol i bawb.

*ON: Mae Anne wedi addo dweud beth fydd un frenhines yn ddweud wrth y llall pan aiff i'r plas!*

**D**


## DEFNYDDIWCH "LLAIS y GYMUNED"

Gall *y Dinesydd* gynnig cyfle marchnata unigryw i gyrraedd yn gyson dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas a'r cylch.


Dengys ein harolygon bod mwyafrif ein darllenwyr yn y grwpiau ABC1, ac yn eu plith mae rhai o bobol mwyaf dylanwadol y genedl. Mae cylchrediad *y Dinesydd* yn uwch o lawer nag unrhyw gyhoeddiad Cymraeg lleol neu genedlaethol arall.

Achubwch ar y cyfle marchnata unigryw yma trwy hysbysebu yn *y Dinesydd*. Mae ein cyfraddau yn rhesymol iawn, ac mae gostyngiadau ar gael ar gyfer cyfresi.

**Cysylltwch â: Tim Pearce neu Justin Webb, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX Ffôn: 01222 452383 Ffacs: 01222 487220**

**y DINESYDD**


# Gôl adderchog!



## John Albert Evans yn manylu ar ei brofiad o ddysgu Cymraeg i enwog y byd pêl-droed

Ers i mi gymryd ymddeoliad cynnar rwyf wedi cael y cyfle i ddysgu Cymraeg i nifer o unigolion digon enwog yn eu gwahanol feysydd. Dyna ichi Marc Aizelwood, er enghraifft. Mae'n bêl-droediwr rhyngwladol ac yn chwarae i dîm Caerdydd. Cyd-ddigwyddiad llwyr yw'r ffaith bod Marc wedi mynd ati i ddysgu Cymraeg yn ystod un o'r cyfnodau gwaethaf yn hanes y clwb.

## Tynnu ymlaen

Mae Marc yn tynnu at ddiwedd ei yrfa fel chwaraewr ac nid yw'n cuddio'r ffaith mai ei brif gymhelliad dros ddysgu'r iaith yw gobeithio cael gwaith ar y cyfryngau trwy'r Gymraeg ar ôl iddo hongian ei esgidiau i fyny. Mae eisoes wedi cael nifer o gyfweliadau yn yr iaith ac mae wedi cynnal nifer o sesiynau gyda phlant ysgol yn y de-ddwyrain.

## Adar Glas Cymraeg?

Fe es i a Marc i fyny i Nant Gwrtheyrn am wythnos ond buan y sylweddolodd, wrth siarad â phlant Ysgol Gynradd Nefyn, bod iaith arall yn bod mewn rhannau o Gymru.

Mae wedi cael dylanwad sylweddol ar Gymreictod yr Adar Glas a bellach fe geir tudalen Gymraeg o'i eiddo ym mhob rhaglen. Dyma'r tro cyntaf i'r Gymraeg ymddangos mewn rhaglen gan y Gymdeithas Bêl-droed neu'r F.A.

Wrth ddysgu Marc mae'r gwersi i gyd yn troi o gwmpas pêl-droed. Dywedodd wrthyf unwaith,. "Does gen i ddim diddordeb yn y mochyn tew'n cerdded wrth ochr y fuwch ar y mynydd," ond dw i wrth fy modd fy mod yn gallu dweud bod Carl Dale wedi sgorio gôl ardderchog." Mae ganddo gof aruthrol ac mae'n cofio geirfa'n hawdd. Does ganddo fe ddim cefndir Cymreig ond mae ei glywed yn siarad Cymraeg mor hyderus yn aml wrth bobl yn rhoi gwefr i mi. Mae angen mwy o'i debyg, ond gallaf glywed ambell un yn dweud, "Trueni na faset ti'n gallu ei ddysgu i chwarae ffwtbol hefyd...." Ond rhagor am ffwtbol yn y ddinas yn y rhifyn nesaf.

**D**

# Croeso i'r iaith




## Y Gair Olaf

Mae'n dda gweld bod yr AA yn dangos ychydig o Gymreictod o'r diwedd. Pe bai'n digwydd ichi fynd i'r Manor Parc Country Hotel yn y ddinas, byddwch yn gweld bod y gair "Gwesty" gyda'r gair "hotel" mewn mannau yno. Yn y llun ichod, mae Mr Efisino Cinus, perchennog Manor Parc yn derbyn yr arwydd.

**D**


## HYSBYS

**BWTHYN** i'w rentu. Un ystafell wely, wedi ei ddodrefnu. Yn y Groeslon ger Caernarfon. Ffôn 01222 231439.

**I'W GOSOD** - Ystafell mewn tŷ yn Nhreganna. £170 y mis. Cysyllter â (01222) 223262.

**SWYDD** rhan amser: Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd. Mae angen person brwdfrydig i gynorthwyo'r athrawes; cymwysterau'n ddymunol ond nid yn angenrheidiol. Ffoniwch 693688.

**TŶ** yn ardal Glanyrafon, Caerdydd, i'w osod - 4 stafell wely o ddiwedd mis Gorffennaf - ffoniwch Charles am fanylion - (01286) 870743.

**FFURFLEN ARCHEBU HYSBYSIAD YN "HYSBYS"**

*Enw* ........................................

*Cyfeiriad* ........................................

*Rhif ffôn* .................... *Rhifyn mis* ....................


*Geiriau:*

........................................

*Cost: 25c y gair. £5 minimum. Anfonwch siec os gwelwch yn dda, yn daladwy i "Newsline", gyda'r archeb at:* ***Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX***


# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 147 Medi 1995



### AR DRAWS

9. Cylalal sydd wrth law mewn taro (5,4)
10. Rhaid i Doli roi ffordd i un crylach. (5)
11. Fe gymeri di ran yn yr eisteddiad, felly. (7)
12. Yr hyn a barai iddo glafychu felly oedd y glow, aie? (7)
13. " - - - - - blodeuai Ebrill." (R.W.P.) (4)
14. Buwyd yn arfer yr ail o'r rhinweddau a argymhellwyd ar y Corinthiaid. (10)
15. Syniad y cyffredin am y dysgedigion. (4,5)
17. Offeiriad y plwy yn cael Gwilym i mewn i'r dwsin sy'n dyfarnu. (7)
19. Echwyn a wnaethost. (10)
22. Un o'r rhai a ffurfiodd gôr ger Salsbri (4)
23. Symud E.G. i agwedd barchus at rywun o allu neu gymeriad anghyffredin. (7)
24. Un sy'n gaeth i arfer niweidiol (7)
26. Chwiliwch am Gymro i ymgyflwyno i ryw achos. (5)
27. Pentre yng Ngwlad yr Hob, Sir Fflint. (9).

### I LAWR

1. Does fawr o ddewis rhyngddynt, er ei bod hi'n bosibl gweld yr amgylchiadau yn llethu Non yn Arberth. (5,1'1,2,6)
2. "Dydd Digofaint" yw enw un o donau Joseff Parry. (4,4)
3. Edafedd croesion sy'n gwneud sŵn stêm yn Nyfed. (4) 4. Y cyseinedd a gewch ar ddiwedd llinell o englyn. (1,7)
5. Brych. (6)
6. Teimlai y gwacter o'r golled. (8)
7. Paratowch arch o bren goffer ar gyfer hwn. (1,5)
8. Cafodd R.U. ei drysor i gyd o'r swydd hon ymhlith y beirdd. (8,2,5)
16. Neges y beddfaen (8)
17. Pentre ger Wrecsam. (8)
18. Lledaenu wrth chwalu'r argraffdy aur. (8)
20. Llyfr yr adnodau niferus? (6)
21. Petrus (nid petris). (6)
25. Dwyn i fyny. (4)

**Cystadleuaeth Rhif 146** Enillydd y tocyn llyfr £5 ydy Miss D. E. Williams, Lakeside Drive, Caerdydd. Datrysiadau cywir hefyd gan: Colin Murphy, Y Caerau; Margaret Jones, Cyncoed; Hilda Ethell, Rhiwbeina; T.A. Owen, Llandaf; Gwenda Hopkins, Llanisien; E. Haydn Jones, Rhiwbeina; Hanna Simpson, Y Bontfaen; Margaret Jones, Llandaf.

**Cystadleuaeth Rhif 147** Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd ap Lewsyn erbyn 17 Medi os gwelwch yn dda. Anfonwch at 13 Rannock Drive, Caerdydd.

### DATRYSIAD RHIF 146

